



Cyngor Caerdydd - Mai 2026

Arholiad CDLI Newydd Caerdydd

Sesiwn Gwrandawriad 8 Yr Amgylchedd Naturiol

Datganiad Cyngor HS8.01 mewn Ymateb i Gwestiynau'r Arolygwyr yn ID08h



www.cdllcaerdydd.co.uk



02920 872087



CDL@caerdydd.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English



Cyngor Caerdydd
Cynllun Datblygu Lleol Newydd
Archwiliad

Sesiwn Gwrandawriad 8 – 09.30 – 13.00, 17 Mehefin 2026

Rhithwir

Yr Amgylchedd Naturiol

Mater - A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith clir, cyson ac effeithiol i warchod, cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir yn gyfreithlon; ac a yw'r Cynllun yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Pennod 6.

1. Agor a chyflwyniadau

2. Dull cynllun cyfan

2.1 A yw'r Cynllun, wedi'i ddarllen yn ei gyfanrwydd, yn ei gwneud yn ofynnol, a hynny mewn modd clir a chyson, gymhwyso'r dull fesul cam at fioamrywiaeth a darparu budd net mesuradwy i fioamrywiaeth, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Pennod 6?

Ymateb:

Ydy, mae'r Cyngor o'r farn bod nodau, amcanion a strategaeth y Cynllun yn ceisio diogelu a gwella asedau naturiol Caerdydd, ei seilwaith gwyrdd a glas, ei bioamrywiaeth a sicrhau gwydnwch ecosystemau drwy 'ddull fesul cam' a chyflawni 'Budd Bioamrywiaeth Net' (BBN).

Mae Polisi SP21 yn glir bod angen Datganiad Seilwaith Gwyrdd, ac mae hyn yn cysylltu'n ôl â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC), gan fod angen Datganiad Seilwaith Gwyrdd i dynnu sylw at sut mae'r 'dull fesul cam' yn cael ei ddilyn a bod BBN yn cael ei gyflawni fel rhan o'r canlyniad hwnnw.

Mae Polisi BG4 yn darparu canllawiau pellach ar y gofyniad am Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd, BBN a phob agwedd o dan y 'dull fesul cam' sy'n sylfaenol i ganlyniadau PCC. Cefnogir hyn ymhellach gan BG1, BG2, BG3 a BG7, sy'n bwydo i mewn i Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd.

Er mwyn rhoi eglurder, mae'r Cyngor yn cynnig y diwygiadau canlynol i Bolisi SP21 (testun ychwanegol wedi'i ddangos mewn print trwm ac wedi'i danlinellu a thestun sydd wedi'i ddileu â llinell trwyddo).

'SP21: CYNNAL A GWELLA SEILWAITH GWYRDD A BIOAMRYWIAETH

Mae seilwaith gwyrdd (gan gynnwys seilwaith glas ac awyrol) yn darparu atebion sy'n seiliedig ar natur i ystod o faterion amgylcheddol a chymdeithasol, megis yr argyfwng yn yr hinsawdd, yr argyfwng natur, llifogydd, llygredd aer, effeithiau ynys wres drefol, iechyd y cyhoedd a lles meddyliol. Mae asedau seilwaith gwyrdd/bioamrywiaeth yn allweddol i gymeriad, gwerth ac arbenigrwydd Caerdydd a'i hymdeimlad o le. Mae asedau seilwaith gwyrdd Caerdydd yn cynnwys:

- i. Cefn gwlad ac arfordir sydd heb eu datblygu.**
- ii. Safleoedd cadwraeth natur gwarchoddedig statudol ac anstatudol.**
- iii. Cynefinoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Mawr ~~Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth/gwarchoddedig~~, a'r ystod gyffredinol o gynefinoedd a rhywogaethau ledled Caerdydd.**
- iv. Nodweddion o ran tirlun, daeareg a threftadaeth sy'n cyfrannu at osodiad Caerdydd.**
- v. Rhwydweithiau hydrolegol gan gynnwys dyffrynnoedd afonydd strategol bwysig yr *Elái, Taf, Nant Fawr a Rhymni, nentydd, llynnoedd a phyllau.***
- vi. Coed, coetiroedd a gwrychoedd. Priddoedd.**
- viii. Lleiniau ymyl ffyrdd, ynysoedd cylchfannau a phlannu ar hyd ffyrdd er mwyn sgrinio.**
- ix. Llwybrau hamdden a beicio strategol a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.**
- x. Ystod o reilffyrdd gweithredol ac anweithredol, sy'n cysylltu cynefinoedd ledled y ddinas.**
- xi. Parciau, caeau chwarae, mannau chwarae gwyrdd a mannau gwyrdd agored â chyfleoedd i chwarae.**
- xii. Mannau tyfu gan gynnwys rhandiroedd, perllannau cymunedol a gerddi preifat.**
- xiii. Cynefinoedd dŵr croyw megis Bae Caerdydd, Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen, a rhwydwaith o byllau ar hyd a lled y ddinas, yr amgylchedd aberol a morol; a**
- xiv. Systemau rheoli dŵr wyneb integredig holistig.**

Disgwylir i ddatblygiadau ddiogelu a gwella cyfanrwydd, hyd a lled, amrywiaeth, ansawdd a chysylltedd asedau seilwaith gwyrdd; darparu mannau gwyrdd amlswyddogaethol; darparu "Buddion Net ar gyfer Bioamrywiaeth"; a sicrhau y gellir cynnal cynhelir gwydnwch ecosystemau. Bydd angen Aseiad Datganiad Seilwaith Gwyrdd yn cwmpasu Seilwaith Gwyrdd presennol a chyfleoedd i'r dyfodol ar gyfer pob cynnig datblygu sylweddol.'

2.2A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith clir ac effeithiol ar gyfer arddangos, sicrhau, monitro a rheoli'r gofynion hyn drwy'r broses rheoli datblygu?

Ymateb:

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod Polisiâu BG1 i BG7 yn ceisio echdynnu data gwaelodlin, sydd wedyn yn bwydo i mewn i BG4, lle mae gofynion PCC ynghylch BBN a'r 'dull fesul cam' wedi'u cynnwys drwy ofyn am Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd.

Mae Polisi BG4 hefyd yn nodi: '*Bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu dim ond lle y gellir dangos tystiolaeth ar ei gyfer*' sy'n sicrhau y bydd y Datganiad Seilwaith Gwyrdd yn cyflawni'r gofynion o fonitro a rheoli asedau Seilwaith Gwyrdd/ecoleg cyn gallu gwneud sylwadau'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gais mewn perthynas â BG4.

Bydd y dull uchod yn cael ei gefnogi gan Ganllaw Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach ar y mater hwn.

3. Strwythur a hierarchaeth polisi

3.1 A yw'r polisiâu strategol a manwl, yn enwedig Polisiâu SP3, SP4, SP21 a BG1–BG7, yn trosi dull bioamrywiaeth cyffredinol y polisi cynllunio cenedlaethol yn glir ac yn gyson yn benderfyniadau, neu a oes angen newid geiriad, strwythur neu ddilyniant polisi i sicrhau bod y dull fesul cam a budd net bioamrywiaeth yn cael eu sicrhau ar y lefel briodol?

Ymateb:

Ydy, mae'r Cyngor o'r farn bod y polisiâu strategol a manwl sy'n destun diwygiadau arfaethedig yn cael eu hystyried i fabwysiadu dull bioamrywiaeth cyffredinol polisiâu cynllunio cenedlaethol wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r polisiâu Strategol yn gosod y sefyllfa ar gyfer Caerdydd gan nodi disgwyliadau, eitemau eang sy'n peri pryder arbennig fel Datganiadau Seilwaith Gwyrdd a'r gofyniad am wybodaeth waelodlin. Mae'r polisiâu manwl yn darparu canllawiau pellach ar wybodaeth waelodlin sy'n cael ei phennu/sydd ei hangen, ac mae pob un ohonynt yn bwydo i mewn i Bolisi BG4. Mae Polisi BG4 yn cysylltu'n uniongyrchol â PCC gan fod hyn yn tynnu ynghyd yr holl wybodaeth waelodlin y gofynnwyd amdani a'r "camau lliniaru", sef yr hierarchaeth gyda (gan gynnwys gwneud iawn a gwella, yn unol â'r 'dull fesul cam'), sy'n nodi a yw cynigion datblygu yn darparu BBN.

4. Materion polisi manwl

4.1 A yw'n briodol i Bolisi BG1 fynd i'r afael â dynodiadau statudol ac anstatudol, ac a yw'r gwahaniaeth rhwng y dull o ran safleoedd statudol (fel SoDdGAau ac ACAau) a safleoedd a ddynodwyd yn lleol (fel SoBCNau) yn ddigon clir a diamwys?

Ymateb:

Mae'r Cyngor yn cynnig y polisi ychwanegol canlynol ar ddynodiadau anstatudol i egluro'r gwahaniaeth rhwng y dull o ran safleoedd statudol a safleoedd a ddynodwyd yn lleol.

'BGX: SAFLEOEDD A DDYNODWYD YN LLEOL

Dim ond os nad yw'n achosi niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol i safleoedd sy'n ddarostyngedig i bolisi cynllunio lleol o ddynodi lleol y caniateir datblygu h.y. safleoedd SoBCN neu Warchodfa Natur Leol (GNL) a gall hefyd gynnwys dynodiad daearegol.

Pan fo potensial am niwed (gan gynnwys anuniongyrchol), bydd datblygiadau yn dderbyniol dim ond pan fydd mesurau lliniaru a/neu gwneud iawn, sy'n dilyn y Dull Fesul Cam, yn dileu'r niwed hwnnw, felly mae'r gwerth cadwraeth natur cyffredinol yn parhau/â'r potensial i gael ei ddynodi yn y dyfodol.

Hefyd, bydd disgwyl i gynigion datblygu sy'n cwmpasu'r mathau o safleoedd dynodedig a drafodwyd ddangos sut maent yn gwella cadwraeth natur a/neu bwysigrwydd daearegol y dynodiadau a ble maent o fewn y Parth Dylanwad.

Bydd yr holl fesurau lliniaru ar gyfer safleoedd o'r fath yn realistig ac yn gyraeddadwy yn unol ag arfer gorau a'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael, os caiff hyn ei asesu fel mai nid dyna'r sefyllfa, caiff datblygu ei wrthod.'

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cynnig y diwygiadau canlynol i Bolisi BG1 (testun ychwanegol wedi'i ddangos mewn print trwm ac wedi'i danlinellu a thestun sydd wedi'i ddileu wedi'i ddangos â llinell trwyddo).

'BG1: SAFLEOEDD DYNODEDIG

Caniateir datblygiad dim ond os nad yw'n achosi niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol i safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur rhyngwladol neu genedlaethol ~~neu niwed annerbyniol i safleoedd cadwraeth natur a/neu bwysigrwydd daearegol a ddynodwyd yn lleol.~~ P'un a yw'n SoDdGA neu unrhyw ddynodiad cenedlaethol arall, lle mae potensial am niwed (gan gynnwys anuniongyrchol), bydd datblygiadau yn dderbyniol dim ond lle mae mesurau gwneud iawn a lliniaru yn dileu'r niwed hwnnw fel bod y gwerth cadwraeth natur cyffredinol yn parhau.

Bydd disgwyl i gynigion datblygu ddangos sut maent yn gwella cadwraeth natur a/neu bwysigrwydd daearegol y dynodiadau lle y maent o fewn y Parth Dylanwad. Ar gyfer pob safle lle mae potensial am niwed, caniateir datblygu dim ond pan fo mesurau gwneud iawn a lliniaru priodol a chymesur yn nodi nad oes gostyngiad yng ngwerth cadwraeth natur cyffredinol yr ardal neu'r nodwedd. Ymgynghorir â Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol wrth ystyried safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol. Efallai y bydd hefyd angen ystyried Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – gan gynnwys sgrinio, asesiad priodol neu randdirymiadau.'

Bydd yr holl fesurau lliniaru ar gyfer safleoedd o'r fath yn realistig ac yn gyflawnadwy yn unol ag arfer gorau a'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael.'

4.2A yw Polisiâu BG2 i BG6 yn adlewyrchu polisi cenedlaethol yn ddigonol wrth ymdrin â'r materion priodol y maent yn mynd i'r afael â nhw mewn perthynas â chyfoethogi bioamrywiaeth, coed, coetiroedd, gwrychoedd a phriddoedd, gan gynnwys y flaenoriaeth i osgoi a'r gofyniad am wneud iawn lle caniateir colled?

Ymateb:

Ydy, mae'r Cyngor o'r farn bod Polisiâu BG2 i BG6 yn adlewyrchu'n ddigonol bolisi cenedlaethol yn amodol ar fân ddiwygiadau arfaethedig i Bolisiâu BG2, BG3 a BG4 a nodir isod er mwyn rhoi eglurder lle caniateir cynigion datblygu yn unig (gweler testun ychwanegol mewn print trwm ac wedi'i danlinellu a'r testun sydd wedi'i ddileu â llinell trwyddo).

'BG2: RHWYDWEITHIAU ECOLEGOL A NODWEDDION O BWYS I FIOAMRYWIAETH

Caniateir cynigion datblygu dim ond os nad ydynt yn achosi niwed annerbyniol i:

i. Nodweddion o bwys ar gyfer fflora a ffawna gwyllt, gan gynnwys cysylltedd seilwaith gwyrdd a 'cherrig camu' sy'n galluogi gwasgaru, atgynhyrchiad a hyfywedd genetig rhywogaethau gwarchoddedig a rhai â blaenoriaeth;

ii. Seilwaith gwyrdd o bwys, cyflawni dyletswyddau bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau a seilwaith gwyrdd sy'n cyfrannu at werth cyffredinol y dirwedd (sy'n cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau mwy "cyffredin" a "thoreithiog").

Rhoddir blaenoriaeth benodol i ddiogelu, ehangu, cysylltedd, gwella a rheolaeth ar gynefinoedd lled-naturiol a gedwir. Lle bo'r angen i ddatblygu yn drech na phwysigrwydd cadwraeth natur / ecolegol cyffredinol y safle, dangosir yn glir nad oes lleoliad amgen boddhaol ar gyfer y datblygiad a bod darpariaethau lliniaru / gwneud iawn hirdymor gan ddilyn y dull fesul cam wedi cael eu sicrhau trwy gynigion.

'BG3: CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU Â BLAENORIAETH

Caniateir cynigion datblygu a fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar hyfywedd parhaus cynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod yn gyfreithiol, o bwysigrwydd mawr, neu o werth sylweddol fel arall i Gaerdydd yn seiliedig ar ddosbarthiad hysbys neu faint y boblogaeth, dim ond lle:

i. Mae'r angen i ddatblygu yn drech na phwysigrwydd cadwraeth natur/ecolegol y safle cynefin/rhywogaeth gan ystyried y Dull Fesul Cam;

ii. Mae'r datblygwr yn dangos nad oes lleoliad amgen boddhaol ar gyfer y datblygiad sy'n osgoi effeithiau cadwraeth natur; ac
iii. Mae mesurau lliniaru sy'n cael eu hystyried yn hunangynhaliol ac yn gynaliadwy yn ariannol yn cael eu darparu gan y datblygwr. Os nad oes modd osgoi niwed, caiff ei leihau drwy ei liniaru/gwneud iawn amdano'n effeithiol er mwyn sicrhau nad oes gostyngiad yng ngwerth cadwraeth natur/gwerth ecolegol cyffredinol yr ardal neu'r rhywogaeth/grŵp. Os nad yw hyn yn bosibl, darperir mesurau gwneud iawn a gynlluniwyd i gadw, gwella, rheoli a, lle y bo'n briodol, adfer cynefinoedd a rhywogaethau naturiol. Bydd hyn yn sicrhau bod Buddion Net ar gyfer Bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni.

'BG4: BUDDION NET AR GYFER BIOAMRYWIAETH A'R DATGANIAD SEILWAITH GWYRDD

Caniateir datblygu dim ond os gellir dangos yn wyddonol drwy Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd (SG), y gellir cyflawni Buddion Net ar gyfer Bioamrywiaeth, drwy'r dull fesul cam. Dylai hyn ystyried agweddau mor bwysig ag: effeithiau cronnus datblygiad, gwydnwch ecolegol ac osgoi effeithiau ar safleoedd dynodedig (cenedlaethol neu leol), cynefinoedd a rhywogaethau fel y nodir fel gan y cam cyntaf, yn y Dull Fesul Cam i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth.

4.3A yw lleoliad, dilyniant a statws Polisi BG4 yn ymgorffori'n ddigonol y dull fesul cam a'r gofyniad i ddarparu budd net i fioamrywiaeth, fel bod yr egwyddorion hyn yn llywio'r modd y caiff polisïau perthnasol eraill eu dehongli a'u cymhwysu?

Ymateb:

Ydy, mae'r Cyngor o'r farn bod Polisi BG4 yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn cyflawni BBN gyda'r gofyniad am Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd i ddangos hyn yn unol â'r polisi cenedlaethol. Rydym yn nodi ei fod yn cefnogi polisi cenedlaethol ac o dan bolisi cenedlaethol i gyflawni BBN mae'n rhaid i chi ddilyn y 'dull fesul cam' sef yr hierarchaeth lliniaru i bob pwrpas. Mae hyn i gyd yn bwydo i mewn i'r hyn y mae angen i Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd ei gwmpasu.

4.4 Mae'r Cyngor wedi ymateb o'r blaen i gwestiwn ynglŷn â'r 'buddion amwynder cyhoeddus sydd wedi'u diffinio'n glir', y cyfeirir atynt ym Mholisi BG5 ac wedi esbonio mai'r rhain yw'r buddion lluosog a nodir ym mharagraff 7.375. A all y Cyngor gadarnhau, yn unol â Pholisi BG5, na chaniateir cynigion sy'n arwain at gael gwared ar goed, coetiroedd a gwrychoedd yn barhaol a/neu niwed sylweddol iddynt oni bai ei bod yn cael ei ddangos yn glir y gellir lliniaru hyn a/neu y bydd yn cyflawni'r buddion lluosog a restrir ym mharagraff 7,375?

Ymateb:

Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio Polisi BG5, a'r testun ategol, er mwyn rhoi eglurder (dangosir testun ychwanegol mewn print trwm ac wedi'i danlinellu a thestun sydd wedi'i ddileu â llinell trwyddo).

'BG5: COED, COETIROEDD A GWRYCHOEDD

Dylai cynigion datblygu ~~helpu~~ i ddiogelu a gwella coedwig drefol gynaliadwy. Ni chaniateir cynigion sy'n arwain at cael gwared ar goed yn barhaol a/neu achosi niwed sylweddol i goed, coetiroedd a gwrychoedd oni ddangosir yn glir y gellir lliniaru yn erbyn hyn a/neu y bydd hyn yn sicrhau buddion amwynder cyhoeddus sylweddol sydd wedi'u diffinio'n glir ac y gwneir iawn am golledion yn unol â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol.'

*'7.376 Bydd coedwig drefol gynaliadwy, **sy'n cynnwys tir y tu mewn a'r tu allan i ffin yr anheddiad**, yn cynnwys ystod oed amrywiol ond cytbwys a chymysgedd o rywogaethau coed, er y bydd coed mawr, hirhoedlog yn cael eu ffafrio i'w gwarchod ac i'w plannu oherwydd y buddion mwy y maent yn eu cynnig wrth liniaru effeithiau disgwylidig newid yn yr hinsawdd. Bydd dewis rhywogaethau priodol ar gyfer plannu yn dibynnu ar y cyd-destun lleol – er enghraifft, mewn cyd-destunau lled-naturiol, coed brodorol lleol sy'n debygol o gael eu ffafrio, ond mewn cyd-destunau hynod drefol, efallai y bydd coed anffodorol sydd yn gallu addasu'n well i eithafion hinsoddol yn fwy priodol. Mae coedwig drefol gynaliadwy yn allweddol i'r uchelgais o sicrhau brigdwf o 25% erbyn 2030.*

'7.377 Er mwyn helpu i benderfynu a fyddai cael gwared ar goed, coetiroedd neu wrychoedd o fewn neu sy'n ffinio â safle yn cyflawni buddion ~~amwynder~~ cyhoeddus sylweddol sydd wedi'u diffinio'n glir, rhaid i ymgeiswyr eu hasesu yn unol â'r Safon Brydeinig gyfredol.'

'5837, Rheoliadau Gwrychoedd 1997 ac fel rhan o Asesiad Seilwaith Gwyrdd ehangach yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru Pennod 6. Rhaid i'r asesiadau gyflwyno gwybodaeth yn hytrach na chael eu llywio gan ddyluniad. Mae Canllaw Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd Cyngor Caerdydd (Nodyn Canllaw Technegol Coed a Datblygu) yn rhoi arweiniad pellach er mwyn penderfynu a fydd cael gwared ar goed, coetiroedd neu wrychoedd o fewn neu yn ffinio â safle yn sicrhau buddion ~~amwynder~~ cyhoeddus sylweddol sydd wedi'u diffinio'n glir.'

Er mwyn rhoi eglurder, mae paragraff 7.375 yn nodi'r buddion lluosog a ddarperir gan goed, coetiroedd a gwrychoedd. Mae Polisi BG5 yn cyfeirio at beidio â chaniatáu cael gwared ar goed, coetiroedd a gwrychoedd yn barhaol a/neu achosi niwed sylweddol iddynt oni ddangosir yn glir y bydd y datblygiad yn cyflawni buddion cyhoeddus sylweddol sydd wedi'u diffinio'n glir. O ran 'buddion cyhoeddus sylweddol sydd wedi'u diffinio'n glir' fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, ystyrir nad yw'n briodol diffinio na darparu rhestr gan fod angen hyblygrwydd a byddai angen asesu pob cais.

4.5 O dan amgylchiadau lle byddai colli coed, coetiroedd a gwrychoedd yn cael ei ganiatáu ar gyfer buddion amwynder cyhoeddus sylweddol, a yw Polisi BG5 yn sicrhau bod angen gwneud iawn am hyn?

Ymateb:

Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio Polisi BG5 er mwyn rhoi eglurder. Gweler cwestiwn 4.4 uchod am newidiadau arfaethedig.

Mae Polisi BG5 fel y'i diwygiwyd yn sicrhau, pan ganiateir colli neu achosi niwed sylweddol i goed, coetiroedd neu wrychoedd, mae angen gwneud iawn yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.

4.6 Mae'r Cyngor wedi ymateb o'r blaen i gwestiwn ynglŷn â'r 'buddion amwynder cyhoeddus sydd wedi'u diffinio'n glir', y cyfeirir atynt ym Mholisi BG6 ac wedi esbonio mai'r rhain yw'r buddion lluosog a nodir ym mharagraff 7.382. A all y Cyngor gadarnhau na chaniateir cael gwared yn barhaol, selio a/neu achosi niwed sylweddol i weithrediad priddoedd oni ddangosir yn glir y bydd hyn yn cyflawni'r buddion lluosog a nodir ym mharagraff 7.382?

Ymateb:

Mae'r Cyngor yn cynnig diwygio Polisi BG6 a pharagraffau ategol er mwyn rhoi eglurder (dangosir testun ychwanegol mewn print trwm ac wedi'i danlinellu a'r testun sydd wedi'i ddileu â llinell trwyddo).

'BG6: PRIDDOEDD

Bydd cynigion datblygu yn dangos yn glir sut y byddant yn gwarchod ac yn gwella adnoddau pridd pwysig ar gyfer y buddion lluosog y maent yn eu darparu. Ni chaniateir cael gwared yn barhaol, selio a/neu achosi niwed sylweddol i weithrediad priddoedd oni ddangosir yn glir y bydd hyn yn sicrhau buddion amwynder cyhoeddus sylweddol sydd wedi eu diffinio'n glir.'

Er mwyn rhoi eglurder, mae paragraff 7.382 yn nodi'r buddion lluosog a ddarperir gan briddoedd. Mae Polisi BG6 yn cyfeirio at y ffaith na chaniateir cael gwared yn barhaol, selio a/neu achosi niwed sylweddol i weithrediad priddoedd oni ddangosir yn glir y bydd hyn yn sicrhau buddion cyhoeddus sylweddol sydd wedi'u diffinio'n glir. O ran y 'buddion cyhoeddus sylweddol sydd wedi'u diffinio'n glir', fel y cyfeirir atynt ym Mholisi Cynllunio Cymru, ystyrir nad yw'n briodol diffinio na darparu rhestr gan fod angen hyblygrwydd a byddai angen asesu pob cais.

4.7 A yw'r derminoleg a ddefnyddir yn y testun ategol i Bolisi BG7 yn gywir ac yn gyson â pholisi cenedlaethol, gan gynnwys a ddylai'r cyfeiriad at "safleoedd cenedlaethol" fod yn lle hynny at "Safleoedd Ewropeaidd"?

Ymateb:

Mae'r Cyngor yn cadarnhau y dylai'r derminoleg ym mharagraffau 7.391, 7.394 a 7.400 o'r testun ategol i Bolisi BG7 gyfeirio at '*Safleoedd Ewropeaidd*', nid '*Safleoedd Cenedlaethol*', er mwyn bod yn gywir ac yn gyson â pholisi cenedlaethol yng Nghymru. Cynigir bod y newid hwn yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd sydd ar ddod.

5. Materion gofodol a thematig

5.1 Sut bydd y Cynllun yn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn mynediad at fannau gwyrdd ar draws gwahanol rannau o'r ddinas?

Ymateb:

Mae'r Cyngor o'r farn bod y ddinas yn elwa o sylfaen gref o fannau agored, coridorau afonydd, ac asedau naturiol sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad ac ansawdd amgylcheddol y ddinas. Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y coridorau gwyrdd a glas presennol hyn ac yn ceisio eu diogelu trwy bolisiau cadarn sy'n diogelu mannau agored, cyfoethogi bioamrywiaeth, a chynnal uniondeb rhwydwaith seilwaith gwyrdd strategol y ddinas.

Yn hanfodol, mae'r cynllun hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu mannau agored newydd ac ymgorffori seilwaith gwyrdd fel rhan o unrhyw ddatblygiad newydd. Mae hyn yn sicrhau bod twf yn cyfrannu'n gadarnhaol at rwydwaith gwyrdd y ddinas, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o fynediad at fannau agored ac amgylcheddau naturiol ar hyn o bryd. Trwy gyfuno gwarchod asedau presennol â darpariaeth wedi'i thargedu mewn ardaloedd o ddiffyg, mae'r cynllun yn cefnogi dosbarthiad mwy teg a gwydn ar gyfer mannau gwyrdd ledled y ddinas.

5.2 Sut bydd y Cynllun yn mynd i'r afael â gwarchod a gwella Gwastadeddau Gwent, gan ystyried eu pwysigrwydd ecolegol cydnabyddedig?

Ymateb:

Mae *Cymru'r Dyfodol* yn nodi Gwastadeddau Gwent fel Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol o dan Bolisi 9, gan gydnabod eu pwysigrwydd ecolegol, tirweddol a hanesyddol eithriadol, a'u rôl mewn bioamrywiaeth, lliniaru llifogydd, storio carbon a chynhyrchu bwyd. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan ganllawiau cynllunio strategol sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Gwastadeddau Gwent, sy'n disgwyl i gynlluniau datblygu ddiogelu a gwella rhwydweithiau ecolegol gwydn ar draws y Gwastadeddau ac i osgoi datblygiad sy'n annerbyniol fel arall.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn mynd i'r afael â gwarchod a gwella Gwastadeddau Gwent yn y ffyrdd canlynol.

Yn gyntaf, mae gweledigaeth ac amcanion "Gwyrddach" y Cynllun yn cydnabod asedau arfordirol a gwlyptiroedd o bwys cenedlaethol Caerdydd, gan gynnwys Gwastadeddau Gwent, fel allwedd i adferiad natur, gwydnwch hinsawdd a chymeriad tirwedd. Mae hyn yn alinio'r Cynllun â Pholisi 9 Cymru'r Dyfodol a gofynion Polisi Cynllunio Cymru i warchod tirweddau a rhwydweithiau ecolegol o bwys cenedlaethol.

Yn ail, mae'r Cynllun yn cynnwys polisiau sy'n gwrthsefyll datblygiad amhriodol yng nghefn gwlad ac yn gwarchod tirweddau o bwys lleol a chenedlaethol. Ar gyfer Gwastadeddau Gwent, mae hyn yn golygu rhagdybiaeth gref yn erbyn datblygiad a fyddai'n niweidio eu natur agored, eu cymeriad tirwedd hanesyddol a'u lleoliad, neu'n tanseilio uniondeb y rhwydwaith ffosydd draenio a phatrwm y caeau.

Mae polisiau bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd y Cynllun yn gofyn nad oes colled net o fioamrywiaeth a, lle bynnag y bo'n bosibl, bod enillion net mesuradwy, gwarchod safleoedd dynodedig (SoDdGAau a dynodiadau rhyngwladol sy'n gysylltiedig ag Aber Afon Hafren) a chefnogi cynefinoedd, gan gynnwys tir sy'n gysylltiedig yn swyddogaethol a chynnal a gwella cysylltedd ecolegol, sy'n arbennig o berthnasol i systemau ffosydd llinol y Gwastadeddau.

Gyda'i gilydd, mae'r polisiau hyn yn sicrhau bod pwysigrwydd ecolegol cydnabyddedig Gwastadeddau Gwent yn gyfyngiad materol ar ddatblygu a bod yn rhaid i unrhyw gynnydd ddangos bod effeithiau andwyol ar nodweddion dynodedig a rhwydweithiau ecolegol yn cael eu hosgoi, yna eu lleihau, a dim ond fel dewis olaf yn cael eu lliniaru/gwneud iawn amdanynt.

Yn drydydd, mae'r Cynllun yn cynnwys polisiau manwl ar berygl llifogydd a rheoli dŵr sy'n uniongyrchol berthnasol i Wastadeddau Gwent fel gwastadedd arfordirol isel a amddiffynnir. Bydd datblygu yn cael ei lywio oddi wrth ardaloedd sydd â'r perygl llifogydd uchaf oni bai ei fod yn gallu bodloni profion cenedlaethol i ddangos cyfiawnhad a chanlyniadau a bydd yn rhaid iddo ymgorffori draenio cynaliadwy a dylunio sy'n sensitif i ddŵr. Trwy ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu gynnal patrymau draenio presennol, osgoi cwlferiti a diogelu ansawdd dŵr, mae'r Cynllun yn cefnogi gweithrediad parhaus y rhwydwaith ffosydd sy'n sail i werth ecolegol a rôl rheoli llifogydd y Gwastadeddau. Mae hyn yn gyson â chanllawiau cenedlaethol sy'n pwysleisio'r angen i gynnal a gwella'r cyrsiau dŵr hyn fel coridorau ecolegol allweddol.

Yn olaf, cefnogir y Cynllun gan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, sy'n nodi Gwastadeddau Gwent a'r dynodiadau cysylltiedig fel elfennau hanfodol o rwydwaith ecolegol Caerdydd. Disgwylir i gynnydd datblygu sy'n effeithio ar ardal ehangach Gwastadeddau Gwent ddarparu seilwaith gwyrdd sy'n cryfhau coridorau ffosydd draenio, ymylon caeau a chynefinoedd gwlyptiroedd, creu neu adfer cynefinoedd (e.e. glaswelltir gwlyb, gwelyau cyrs, ymylon sy'n gyfoethog o beillwyr) sy'n cefnogi rhywogaethau a

chynefinoedd cymwys SoDdGAau a dynodiadau Aber Afon Hafren ac integreiddio trefniadau rheoli hirdymor i sicrhau'r gwelliannau hyn dros oes y datblygiad.

I gloi, mae'r Cyngor o'r farn bod y Cynllun yn mynd i'r afael â gwarchod a gwella Gwastadeddau Gwent drwy:

- Ymgorffori eu pwysigrwydd ecolegol a hanesyddol a gydnabyddir yn genedlaethol yng ngweledigaeth a strategaeth ofodol y Cynllun.
- Cymhwyso polisïau cefn gwlad, tirwedd a bioamrywiaeth cryf sy'n gwrthsefyll datblygiad niweidiol.
- Defnyddio polisïau perygl llifogydd a rheoli dŵr i ddiogelu'r system ffosydd draenio a rôl y Gwastadeddau mewn cyflawni gwydnwch hinsawdd.
- Angen enillion net o ran bioamrywiaeth, cryfhau rhwydweithiau ecolegol a gwaith gwella cynefinoedd wedi'i dargedu.

Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn dangos bod y Cynllun wedi rhoi sylw priodol i bwysigrwydd ecolegol cydnabyddedig Gwastadeddau Gwent ac yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer eu gwarchod a'u gwella'n gadarnhaol dros gyfnod y Cynllun.

6. Camau Gweithredu